Annwyl……
Bob blwyddyn gofynnwn i bawb sydd wedi cwblhau cwrs yma yn ddiweddar gymryd rhan mewn arolwg i ddarganfod beth sy'n digwydd iddynt ar ôl iddynt adael y *brifysgol/coleg*.
Mae gennym ddiddordeb mewn unrhyw waith a/neu astudiaeth bellach y byddwch yn ei wneud ar 10 Ionawr 2018.
Byddwch cystal â chlicio ar y cyswllt hwn…… i lenwi holiadur yn awr. Ni ddylai gymryd ond ychydig funudau i'w lenwi - y cyfan y mae'r mwyafrif o'r cwestiynau yn gofyn i chi ei wneud yw dewis blwch i roi eich ateb. Ar ôl gorffen, sicrhewch eich bod chi wedi cyflwyno eich holiadur drwy ddilyn y cyfarwyddiadau.
Gallwch gwblhau'r holiadur ar-lein unrhyw bryd rhwng nawr a 5 Mawrth, ond cofiwch mai 10 Ionawr yw'r dyddiad sydd o ddiddordeb i ni er mwyn i ni allu cymharu gwybodaeth pawb.
Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r holiadur, neu os hoffech ei gael mewn fformat arall, byddwch
cystal â chysylltu â ni yn……
Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion ynghylch sut mae'r arolwg yn gweithio a beth fydd yn
digwydd i'r wybodaeth a roddwch *isod/yn y ffeil sydd ynghlwm, drwy glicio ar y cyswllt hwn……*
Er eich bod chi wedi cwblhau eich cwrs, mae'r *gwasanaeth gyrfaoedd* ar gael i chi o hyd i'ch helpu gydag unrhyw faterion yn ymwneud â gyrfaoedd. Os hoffech gael cymorth i hybu eich gyrfa, yna mae croeso i chi gysylltu â ni yn……
Yn gywir……

**Ynghylch yr arolwg**

Mae'r arolwg rydym yn gofyn i chi gymryd rhan ynddo yn arolwg cenedlaethol o bawb sydd wedi cymhwyso yn ddiweddar mewn unrhyw brifysgol neu goleg Addysg Uwch (AU) yn y DU. Bydd yr wybodaeth a rowch hefyd yn ddefnyddiol iawn i ni yn y *brifysgol/coleg* i gynghori ein myfyrwyr presennol am y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt. O blith y rheiny a enillodd gymwysterau ar draws y DU yn 2015/16, ymatebodd 78% i'r arolwg. Gellir gweld rhagor o ganlyniadau yn https://www.hesa.ac.uk/news/29-06-2017/sfr245-destinations-of-leavers.

Os na fyddwn yn clywed gennych, byddwn yn ceisio cysylltu â chi eto, drwy eich ffonio efallai, felly byddwch cystal â rhoi gwybod i ni os newidiwch eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn. Os na allwn gysylltu â chi o gwbl, mae'n bosibl y byddwn yn ceisio cael gwybodaeth am yr hyn yr oeddech yn ei wneud gan rywun arall, naill ai yn y *brifysgol / coleg* neu rywun y gallwn ei gyrraedd drwy ddefnyddio'r wybodaeth gysylltu a roddwyd gennych ynghynt. Os nad ydych am i ni wneud hyn, neu os nad ydych am roi unrhyw wybodaeth o gwbl i ni, cofiwch ddweud wrthym. Manylir isod ar yr hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth a roddwch i ni.

**Beth sy'n digwydd i'ch gwybodaeth**

Byddwch cystal â rhoi hysbysiad casglu eich sefydliad eich hun yma, ac yna dilynwch hwn gyda
chyswllt i hysbysiad casglu'r AYAU fel y nodir isod
Byddwn ni'n anfon gwybodaeth o'r arolwg hwn i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU).
Disgrifir y defnydd y bydd yr AYAU yn ei wneud o'ch ymatebion i'r arolwg yn fanwl yn y fan hyn
https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices/dlhe-c16018